

Cyfraith Crist

“Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist.” (adn. 2)

Beth am ddarllen Galatiaid 6:1–10 ac yna myfyrio

Yr ydym am lawenhau fod Duw yn Dduw sydd yn gofalu amdanom. Dywedodd gwyddonydd Cristnogol unwaith: “Mae’r dystiolaeth i Dduw sydd yn gofalu i’w gweld ymhobman yn ei greadigaeth; yn y modd y mae’r haul yn gwawrio ac yn machlud, yn nhymhorau’r ddaear, yn y ffordd y mae blodyn yn agor ei betalau... mae’r cyfan i gyd yn bloeddio fod yna Dduw sydd yn gofalu y tu ôl i’w greadigaeth, ac wrth i ni ddod i adnabod y Duw yma yn well, mi fyddwn yn adnabod ei ofal yn well. Mae hyn yn anhepgor. Wrth gwrs, nid yw calon ofalus Duw yn cael ei datguddio yn un man yn fwy eglur nag ym mherson ei Fab, Iesu Grist. Mae’r testun heddiw yn dweud wrthym, wrth i ni gario beichiau ein gilydd, yr ydym yn cyflawni cyfraith Crist.

Gosododd Duw nifer o gyfreithiau yn ei fydysawd – cyfraith disgyrchiant, cyfraith thermodynameg, cyfraith marwolaeth ac yn y blaen, ond mae yna un gyfraith sydd yn uwch na’r cwbl, ac, eto, yn rhan o’r cwbl, cyfraith Crist. A beth yw y gyfraith yma? Cyfraith gofal. Dyma’r gyfraith sydd yn dal pob cyfraith arall ynghyd. Heb hon, byddai’r bydysawd yn chwalu. Nid oes yr un flaenoriaeth fel cyfraith Crist yn y byd.

Ychydig fisoedd yn ôl, bûm mewn eglwys yn Kuala Lumpur. Roedd yr eglwys wedi sefydlu canolfan ddialysis. Wrth wneud hyn, mae wedi darparu’r adeilad, yr offer, a rhan fwyaf o’r bobl sydd yn angenrheidiol ar gyfer y ganolfan. Wrth wneud hyn, mae’n peri fod pobl oedd o’r blaen yn gorfod teithio milltiroedd lawer i’r ddinas, bellach yn cael eu harbed rhag y daith hir ac anghyfforddus yma. Mae’r eglwys yma yn pregethu’r Efengyl saith diwrnod yr wythnos, nid dim ond mewn geiriau, ond mewn gweithredoedd. Mae ei gweinidog a’i phobl yn cyflawni cyfraith Crist. Rhaid i ni arddangos ein gofal yn ein gweithredoedd, ynghyd ag yn ein geiriau, os ydym am wneud gwahaniaeth yn y ganrif hon.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Iago 1:26–2:26; Eiseia 58:1–12; Rhuf. 15:1–7

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw gwir grefydd?
2. Beth yw’r berthynas rhwng ffydd a gweithredoedd?

Gweddi

O Dad, maddau i ni ein bod yn rhai da am ddefnyddio geiriau ond yn aml yn sâl am weithredu. Tyn y cen oddi ar ein llygaid er mwyn i ni gael gweld, nid yn unig yr anghenion sydd o’n cwmpas, ond y cyfleon i ni wasanaethu’r anghenion hyn. Maddau i ni a chynorthwya ni. Yn enw Iesu. Amen.